# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar

**Dwylo Da**

**Heol Buddug**
**Pen-y-groes**
**Caernarfon**
**LL54 6HD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 2 Ionawr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Dwylo Da Cyf wedi'i gofrestru i ddarparu gofal i uchafswm o 23 o blant dan 12 oed. Cynigir gofal i blant 3 mis oed hyd at addysg amser llawn. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 08.00 – 18.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc. Lleolir y safle ym mhentref Pen-y-groes, Gwynedd.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru fel cwmni, ac enwebwyd Ann Thomas fel yr unigolyn cyfrifol gan y bwrdd rheoli. Catherine Ann Eastwood yw'r person sy'n gyfrifol am y gwasanaeth bob dydd. Lindsey Jones, arweinydd tîm y gwasanaeth, oedd y person â chyfrifoldeb ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, ac maent wedi meithrin cydberthnasau da â'u ffrindiau a'r staff. Mae gan y staff gydberthnasau cynnes a gofalgar â'r plant ac maent yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae i hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod yr adnoddau yn hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ac maent wedi sefydlu tîm o staff sydd â rolau a chyfrifoldebau clir. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo cydberthnasau da â'r rhieni a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, mae dau faes sydd angen eu gwella i fodloni'r rheoliadau yn llawn, a gwnaed argymhellion ymarfer cadarnhaol hefyd.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, gwnaed nifer o welliannau er budd y plant, sy'n cynnwys prynu adnoddau newydd; gwaith cynnal a chadw'r adeilad a staff yn mynychu hyfforddiant a chyrsiau.
Ers yr arolygiad hwn, mae'r person â chyfrifoldeb wedi dweud wrthym fod eitemau a allai beri perygl i blant yn yr ardal newid cewynnau bellach wedi'u symud allan o'u cyrraedd; gofynnwyd i'r staff gofnodi damweiniau ac mae camau'n cael eu cymryd i ymdrin â'r ddogfennaeth sydd ar goll o ffeiliau'r staff.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 o ran sicrhau bod ffeiliau'r staff yn gyflawn, ac roedd angen i'r unigolyn cyfrifol adnewyddu ei thystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiadau diffyg cydymffurfiaeth y tro hwn gan nad oedd effaith sylweddol na

risg sylweddol i'r plant. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd y camau i unioni'r materion hyn.

Gwnaed argymhellion er mwyn gwella arferion ym meysydd gofal a datblygu, ac arwain a rheoli.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac maent wedi meithrin cydberthnasau da â'u ffrindiau a'r staff. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau, yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu, ac maent yn datblygu eu sgiliau hunangymorth yn dda.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant lais cryf ac mae'r staff yn gwrando arnynt.

Roedd y plant yn cael digon o gyfleoedd i ddewis yr hyn roeddent am ei wneud a gyda phwy roeddent am chwarae. Roeddent yn gallu cael gafael ar eu dewis o deganau ac adnoddau yn hawdd. Er enghraifft, dewisodd dau blentyn dynnu llun gyda'i gilydd tra bod ffrind yn chwarae offeryn cerdd. Gwnaethom glywed y plant yn cael sgyrsiau manwl gyda'r staff, yn eu mamiaith, sef Cymraeg. Gwnaethant sôn am yr hyn roeddent am ei wneud, neu adrodd stori am eu teulu, ac roedd y staff yn gwrando'n astud ar yr hyn roeddent yn ei ddweud ac yn ateb unrhyw gwestiynau.

Mae'r plant yn lleisio eu barn yn hyderus a chaiff eu dewisiadau eu parchu.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn ffurfio cysylltiadau cryf â'i gilydd ac â'r staff.

Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymlacio am eu bod yn deall y drefn ddyddiol ac yn hapus. Roeddent yn gwybod fod pwysigrwydd a gwerth yn cael ei roi ar yr hyn roedd ganddynt i'w ddweud, am fod y staff yn ymateb i'w ceisiadau mewn ffordd gadarnhaol. Er enghraifft, gwnaeth plentyn bwyntio i'r haul yn tywynnu drwy ffenestr, am ei fod yn tarfu ar ei chwarae. Cafodd y bleind ei dynnu i lawr yn gyflym, gan alluogi'r plentyn i barhau'n hapus. Roedd y plant yn meithrin cyfeillgarwch cadarnhaol â'i gilydd a'r staff. Er enghraifft, roeddent yn chwarae gêm ddychmygus gyda'r plant a oedd yn teimlo ychydig yn ansicr ac yn eistedd ar ben-glin aelod o'r staff am gysur. Roedd y plant yn teimlo'n gartrefol, roedd eu gwaith crefft yn cael ei arddangos, ac roedd y rhai â brodyr a chwiorydd hŷn neu iau yn llawn cyffro i weld ei gilydd yn ystod y dydd.

Mae'r plant bob amser yn teimlo'n ddiogel ac maent yn hapus.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn â'i gilydd a'r staff.

Roedd y plant yn cydweithio â'i gilydd ac yn deall y rheolau ymddygiad, megis rhannu eitemau chwarae a bod yn garedig i'w gilydd. Gwnaethant wrando ar gyfarwyddyd, a phan ofynnwyd iddynt, gwnaethant helpu aelod o'r staff i chwilio am lyfr arbennig i'w ddarllen adeg amser stori. Gwenodd dau blentyn iau ar ei gilydd wrth iddynt chwarae gêm bêl gyda'r plant hŷn, a dywedodd bob un ohonynt eu bod yn teimlo'n 'hapus' ar ôl canu cân am 'Mr Hapus'. Roedd y plant yn dechrau dangos sensitifrwydd tuag at deimladau pobl eraill, wrth i blentyn helpu ffrind drwy chwilio am ddarn jig-so a'i roi iddo i'w gwblhau, ac roedd y ddau blentyn yn teimlo'n dda am eu cyflawniadau.

Mae'r plant yn garedig ac yn barchus ac maent yn dysgu sut i gydweithredu'n gadarnhaol.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu.

Roedd y plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac yn mwynhau chwarae ar eu pen eu hunain, mewn grwpiau a chyda'r staff. Gwnaeth y plant cyn ysgol i gyd benderfynu eu bod am eistedd wrth ymyl aelod o'r staff i chwarae gyda cherbydau bach o wahanol liw a ffigurau anifeiliaid. Gwenodd rhai ohonynt wrth godi ffigur ac adnabod ac enwi'r lliw, tra bod eraill yn hoffi paru gwahanol ffigurau o'r un lliw, a'u gosod mewn rhes yn falch. Roedd plentyn iau yn cael hwyl yn adeiladu tŵr uchel a dyfodd i fod yn dalach na'r plentyn, a bu'n rhaid iddo gael ei godi i osod y bloc olaf ar ei ben. Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda yn ystod amser stori gan gymryd rhan yn y stori; roeddent yn hoff iawn o ruo fel deinosoriaid. Clywsom sut roedd y plant yn dysgu am eu cymuned ehangach, megis ymweld â'r llyfrgell leol ac ardal chwarae meddal a agorodd yn ddiweddar.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae yn dda.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol.

Roedd y plant yn dysgu i wneud pethau drostynt eu hunain, megis golchi eu dwylo a'u hwynebau ar ôl cinio, a thynnu eu hesgidiau cyn iddynt fynd i gysgu. Roedd eu sgiliau ieithyddol yn datblygu wrth iddynt sgwrsio'n helaeth a'i gilydd, y staff a ni. Roedd y plant yn dysgu am iechyd corfforol da drwy fwyta prydau bwyd maethlon a baratowyd yn ffres, a drwy gael cyfleoedd i chwarae neu fynd am dro yn yr awyr iach. Roedd hyder y plant yn datblygu'n dda drwy gymryd tro fel ‘helpwr heddiw’, a gwnaeth y plentyn yn y rôl hon ymgymryd â'i dasgau'n llwyddiannus yn ystod ein hymweliad. Roedd y plant wedi dysgu am arddio a thyfu gwahanol ffrwythau a llysiau yn ystod y misoedd cynhesach.

Mae'r plant yn cael ystod o brofiadau diddorol sy'n hybu eu datblygiad yn gyffredinol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Yn gyffredinol, mae'r staff yn deall polisïau'r gwasanaeth ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac maent yn eu dilyn. Mae cydberthynas gynnes a gofalgar rhyngddynt â'r plant, ac maent yn darparu cyfleoedd chwarae sy'n briodol i'w hoedran er mwyn hybu eu datblygiad. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn diwallu eu hanghenion unigol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Yn gyffredinol, mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ond gallent ystyried darparu dewis gwahanol i ddiodydd sgwash gwan heb siwgr i'r plant.

Gwnaethom siarad ag un aelod o'r staff mewn perthynas â chadw'r plant yn ddiogel, a ddywedodd y byddai'n cyfeirio pryder o'r fath i'r person a oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn dilyn y weithdrefn a nodwyd yn y polisi diogelu. Roedd y staff yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth ac roedd y rhieni'n llofnodi i gydnabod eu bod wedi cael eu hysbysu. Fodd bynnag, gellid ymhelaethu ar fanylion rhai cofnodion damweiniau drwy gynnwys yr anaf penodol a dweud y byddai'r staff yn cysylltu â'r rhieni pe bai eu plentyn yn cael anaf i'w pen. Roedd gan niferoedd digonol o staff dystysgrifau Cymorth Cyntaf Pediatrig cyfredol a gallant reoli mân anafiadau yn ôl yr angen.

Roedd y staff yn hyrwyddo arferion iach gan amlaf drwy gynnig prydau bwyd a baratowyd yn ffres bob dydd a dewis o ddŵr, llaeth neu sgwash gwan heb siwgr i'r plant gael yfed. Dilynodd y staff arweiniad cyfredol ar reoli heintiau, wrth iddynt sôn wrthym am eu gweithdrefn newid cewynnau, a oedd yn adlewyrchu'r arfer gorau. Dyfarnwyd sgôr Hylendid Bwyd o 5 (Da Iawn) i'r gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2018, gan ddangos bod y staff sy'n gyfrifol am drin a pharatoi bwyd yn gwneud hynny i safon uchel.

Gallai'r staff wneud rhai gwelliannau er mwyn hyrwyddo diogelwch ac iechyd y plant.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda iawn.

Roedd y staff yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth ac yn gosod esiampl dda o ran ymddwyn mewn ffordd gadarnhaol. Nid oedd unrhyw ddryswch o ran y ffordd roeddent yn rheoli ymddygiad, gan eu bod yn gweithredu'n gyson, gan sicrhau eu bod yn siarad â'r plant ar eu lefel ac mewn iaith syml roedd y plant yn ei deall. Roedd y staff wedi llunio strategaethau cadarnhaol a oedd yn gweithio'n dda i hyrwyddo rhyngweithio derbyniol. Er enghraifft, dywedwyd wrth bob plentyn eu bod wedi eistedd yn daclus a'u bod wedi gwrando ar stori, a'u bod felly yn cael dewis sticer fel gwobr. Gwnaethom glywed y staff yn annog y plant i rannu, ac yn eu canmol pan oeddent yn garedig i ffrind neu wedi helpu i dacluso. Roedd y staff yn gweithredu'n dyner ac yn dangos cynhesrwydd a hoffter tuag at y plant, a adlewyrchwyd yn y ffordd roedd y plant yn ymddwyn tuag at ei gilydd a'r staff.

Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus drwy fod yn fodelau rôl da a bod yn garedig a pharchus tuag at y plant.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn trefnu gweithgareddau addas sy'n eu galluogi i ddatblygu.

Drwy drafod â'r staff, gwnaethom ddysgu eu bod yn gyfarwydd ag anghenion a chamau datblygu'r plant yn eu gofal, ac yn seilio dysgu'r plant ar eu cynydd ers iddynt ddechrau yn y gwasanaeth. Roedd hyn yn bosibl drwy drafod â'r rhieni, yn ogystal â gwybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y rhieni pan ddechreuodd eu plentyn. Roedd y staff yn olrhain cynnydd pob plentyn ond nid oeddent bob amser yn cofnodi'r ffordd roeddent yn defnyddio eu harsylwadau i gynllunio chwarae a dysgu pob plentyn. Drwy wneud hynny, byddai'r staff yn gallu dangos tystiolaeth o'r ffordd roeddent yn cynnwys cynnydd plentyn yn y cynlluniau gweithgareddau. Roedd y staff yn rhyngweithio'n dda gyda'r plant, megis yn eistedd ar eu lefel i siarad am yr hyn roeddent yn ei wneud ac ymhelaethu ar eirfa'r plant. Roedd y staff yn adnabod y plant yn dda a gwnaethant ddweud wrthym ble yn union roedd pob plentyn yn dewis cysgu. Gwelwyd hyn yn ymarferol wrth i un plentyn syrthio i gysgu eiliadau ar ôl ei roi mewn sedd sboncio. Roedd y staff yn hapus, yn hyderus, wedi ymlacio ac yn gweithio'n dda fel tîm.

Mae'r staff yn gymwys; maent yn hybu datblygiad y plant ac yn diwallu anghenion unigol y plant.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Maent yn gwneud yn siŵr bod yr adnoddau yn briodol i oedrannau'r plant ac yn lân ac o ansawdd da.

### Ein canfyddiadau

#### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd system ddiogel ar waith i gyfyngu ar fynediad i'r gwasanaeth; roedd y prif ddrws ar glo a'r ardal awyr agored yn gaeedig, sy'n golygu bod yr arweinwyr yn sicrhau na allai unrhyw unigolion diawdurdod fynd i mewn i'r safle. Roedd yr arweinwyr yn cynnal asesiadau risg ysgrifenedig ar gyfer yr eiddo a phan oedd plant yn mynd am dro neu ar deithiau. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau y gallai'r plant adael y safle drwy wneud yn siŵr bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Pe bai angen i'r plant adael drwy'r giât pren tu allan a gedwir ar glo, byddai modd cael gafael ar yr allwedd i'w agor yn gyflym. Roedd yr arweinwyr yn adolygu damweiniau a digwyddiadau i sicrhau bod y rhain yn cael eu monitro, ac i benderfynu a oedd angen iddynt fynd i'r afael ag unrhyw faterion a oedd yn codi.

Mae'r arweinwyr wedi gosod gweithdrefnau effeithiol i gadw'r plant yn ddiogel yn y gwasanaeth ac yn y gymuned.

#### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd cyfforddus lle gall y plant ddatblygu a thyfu.

Roedd yr arweinwyr wedi manteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd dan do er mwyn bod digon o le i'r plant fwynhau eu gweithgareddau. Er enghraifft, gosodwyd byrddau ar gyfer y plant hŷn i fwynhau gweithgareddau grŵp, tra bod gan fabanod eu gofod eu hunain lle gallent ymarfer eu sgiliau corfforol, megis cerdded a chropian. Roedd y blychau storio wedi'u labelu ac roedd rhywfaint o adnoddau wedi'u gosod i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Roedd yr ardal gaeedig yn yr awyr agored yn darparu cyfleoedd i ddysgu drwy chwarae, megis reidio beiciau, garddio a gemau awyr agored. Roedd toiledau, cyfleusterau newid cewynnau a basnau golchi dwylo wedi'u lleoli ger ystafell chwarae'r plant, gan ddangos bod yr arweinwyr yn sicrhau y gallant gael mynediad atynt yn hawdd pan fo angen. Darparwyd ystafell gysgu ddynodedig i fabanod yr oedd yn well ganddynt gysgu mewn cot, ac roedd gwelyau lefel isel yn yr ystafell chwarae pe bai angen i'r plant hŷn orffwys. Roedd yr amgylchedd yn olau, wedi'i addurno'n lliwgar ac roedd yr amgylchedd yn groesawgar i'r plant, am fod eu gwaith yn cael ei arddangos.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu ystod o gyfleoedd chwarae addas i oedran y plant sy'n mynychu.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau sy'n addas i oedran y plant a'u camau datblygu.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar addas wrth law. Roedd y rhain yn lân, mewn cyflwr da ac yn gweddu i oedrannau a chamau datblygu'r plant. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau'n hybu dysgu'r plant, gyda deunydd darllen i blant hŷn yn cael ei arddangos yn ddeniadol, a gallai'r rhai iau eistedd a dewis o blith yr amryfal deganau o'u cwmpas ac o fewn eu cyrraedd. Roedd byrddau a chadeiriau maint plentyn yn golygu y gallai'r plant gyflawni gweithgareddau pen bwrdd ac eistedd gyda'i gilydd amser byrbryd / amser cinio. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau'n annog y plant i ddatblygu eu sgiliau creadigol, er enghraifft roedd y plant wedi wedi defnyddio papier mâché i greu a phaentio mynydd bach i'r teganau anifeiliaid gael ei archwilio. Roedd y plant iau wedi creu dyluniadau lliwgar drwy baentio eu dwylo a'u printio, a oedd wedi eu harddangos ar wal eu hystafell chwarae.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau yn addas o ran datblygiad y plant ac o ansawdd da

## 4.Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ac yn ymrwymedig i fonitro a gwella'r gwasanaeth. Mae partneriaethau effeithiol ar waith gyda'r rhieni a'r gymuned leol. Mae'r arweinwyr wedi sefydlu tîm o staff sydd â rolau a chyfrifoldebau clir. Fodd bynnag, mae angen rhywfaint o welliant o ran bodloni'r rheoliadau'n llwyr mewn perthynas â ffeiliau'r staff, ac mae angen i'r unigolyn cyfrifol adnewyddu ei chliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn deall eu rolau wrth reoli'r gwasanaeth.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod datganiad o ddiben y gwasanaeth yn gywir a bod y rhieni'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw a'u plant. Roedd yr arweinwyr yn cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn dda drwy gynnal cyfarfodydd bwrdd rheoli chwarterol yn ystod y flwyddyn, lle gellid ymdrin â materion sy'n codi. Roedd yr arweinwyr hefyd yn sicrhau bod y staff yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd staff er mwyn iddynt gael gwybod am unrhyw newidiadau posibl, yn ogystal â thrafod materion roeddent yn teimlo bod angen eu rhannu. Roedd yr arweinwyr yn annog y staff i fynychu hyfforddiant a chyrsiau, er lles y plant. Dathlodd yr arweinwyr ben-blwydd y gwasanaeth yn 20 ers ei agor, o 1997 - 2017, gan gadarnhau yn eu hadroddiad ar ansawdd y gofal mai eu nod ar gyfer y dyfodol oedd parhau i gynnig gwasanaeth gofal dydd o ansawdd uchel am bris dibynadwy a theg. Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau eu Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth ac wedi darparu'r wybodaeth ategol sy'n ofynnol gennym, gan ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Fodd bynnag, roedd angen rhywfaint o wybodaeth ychwanegol ar y polisi amddiffyn plant i gynnwys arwyddion y gwahanol fathau o gam-drin, a rhif ffôn cyswllt er mwyn cyfeirio unrhyw bryderon i dîm diogelu plant yr awdurdod lleol. Sicrhaodd yr arweinwyr fod pob aelod o'r staff a gyflogir yn siarad Cymraeg, gyda'r holl waith papur ar gael i rieni yn Gymraeg hefyd, gan olygu eu bod yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

Mae gan yr arweinwyr weithdrefnau cadarn ar waith er mwyn rheoli a goruchwylio eu gwasanaeth.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn gwneud newidiadau cadarnhaol er mwyn datblygu'r gwasanaeth.

Gwelsom fod yr arweinwyr wedi cwblhau adolygiad ansawdd gofal blynyddol manwl a oedd yn cynnwys adborth gan y rhieni, y plant a'r staff, y gwelliannau a wnaed hyd yma a'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol. Roedd y rhieni'n canmol y gwasanaeth, er enghraifft ei fod yn *‘Welsh’, ‘a small nursery’* a'r *‘fresh and homely food’.* Roedd barn y plant o ran eu hymatebion llafar i'r hyn yr oeddent yn ei hoffi neu beidio yn cael eu hystyried. Gallai'r

arweinwyr ystyried cofnodi barn y plant yn ffurfiol a chynnwys eu hymatebion yn yr adroddiad ar ansawdd y gofal, a nodi sut yr ymdriniwyd ag unrhyw faterion a gododd, os o gwbl. Enghraifft o welliant a wnaed gan y staff oedd y posibilrwydd y byddai'r gwasanaeth yn darparu cludiant i hebrwng y plant yn ôl ac ymlaen o'r ysgol. Roedd yr arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r mater hwn yn llwyddiannus, gyda'r staff enwebedig bellach yn gyfrifol am gludiant yn ôl ac ymlaen i'r ysgolion lleol, gyda'r gwasanaeth yn darparu seddau ceir newydd i'r plant. Roedd arweinwyr wedi gwneud llawer o welliannau yn y gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, a oedd yn cynnwys prynu mwy o deganau ac offer i'r plant, addurno'r gwasanaeth a gosod bleinds newydd ar ffenestri. Yn ystod ein hymweliad, dywedodd y person â gofal fod cynlluniau ar waith i ddatblygu'r ardal awyr agored ac i weithredu llyfrau cynnydd darluniadol unigol ar gyfer y plant hŷn.

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu prosesau cadarn er mwyn monitro a gwella'r gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn drefnus ond mae angen gwella o ran sicrhau bod holl ffeiliau'r staff yn cydymffurfio â'r rheoliadau, a bod yr unigolyn cyfrifol yn adnewyddu ei DBS bob tair blynedd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael cymorth gan yr arweinwyr, ac roeddent yn gwybod y gallent fynd atynt os oedd angen arweiniad arnynt, neu os oedd ganddynt unrhyw bryderon. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau blynyddol ac bod cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal gydag aelodau unigol o'r staff yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Gwnaethom ofyn i'r arweinwyr gofnodi'r rhain er mwyn iddynt allu dangos sut roeddent yn mynd i'r afael â materion neu bryderon ymarfer yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Gwnaethom archwilio ffeiliau tri aelod o’r staff nad oeddent yn cydymffurfio'n llwyr â'r rheoliadau gan fod nifer o ddogfennau ar goll. Fodd bynnag, cawsom ein sicrhau yr ymdrinnir â'r mater hwn yn ddi-oed. Rhoddwyd gwybod i'r unigolyn cyfrifol am yr angen i gwblhau cliriad DBS, am ei fod wedi dod i ben. Dywedodd yr arweinwyr wrthym am newidiadau i'r staff a'u bod yn sicrhau bod yr aelod o staff sy'n gyfrifol am y gwasanaeth yn gymwys, yn brofiadol ac yn fedrus yn y rôl hon, yn absenoldeb y person â chyfrifoldeb. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cydweithio'n dda a bod y plant yn cael eu goruchwylio'n briodol, fel y gwelwyd yn yr arolygiad, ac roedd y cymarebau staff yn ddigonol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael eu trefnu'n effeithiol, ac wedi sefydlu gweithdrefnau llwyddiannus i ymdrin ag absenoldebau staff.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a'r gymuned.

Roedd yr arweinwyr yn rhoi gwybod i'r rhieni am amser eu plant yn y gwasanaeth, ar lafar a drwy gofnodion ysgrifenedig dyddiol. Roedd y rhieni'n rannu gwybodaeth am eu plentyn cyn iddo ddechrau, er mwyn i'r arweinwyr rannu arferion dyddiol, dewisiadau ac anghenion pob

plentyn gyda'r tîm o staff. Roedd yr arweinwyr wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol gydag ysgolion lleol wrth i'r staff hebrwng y plant yn ôl ac ymlaen o'r ysgol, lle gellid rhannu gwybodaeth yn ôl yr angen. Yn aml, aethpwyd â'r plant am dro ac ar deithiau, sy'n cynnig cyfleoedd da iddynt gymdeithasu, dysgu mwy am y byd o'u cwmpas, a theimlo'n werthfawr ac yn rhan o'u cymuned.

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau partneriaethau effeithiol sy'n hyrwyddo deilliannau cadarnhaol i'r plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Mae'r diffygion cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus.

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Gwnaethom hysbysu'r person â chyfrifoldeb nad oedd y gwasanaeth yn bodloni'r rheoliadau canlynol o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Er nad oedd y rhain yn effeithio ar lesiant y plant, dylid mynd i'r afael â nhw:

**Rheoliad 6 (3) (ii)(aa)** o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 - rhaid i'r unigolyn cyfrifol darparu tystysgrif fanwl o gofnod troseddol i Weinidogion Cymru.

**Rheoliad 28 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010** – ni ddylai'r person â chyfrifoldeb gyflogi aelod o staff i ofalu am blant oni bai bod y person hwnnw'n addas. Mae angen ymdrin â'r ddogfennaeth sydd ar goll yn ffeiliau'r tri aelod o staff a archwiliwyd gennym.

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Y pethau i'w hystyried;

- Cofnodi sgyrsiau â rhieni pan fydd y staff yn rhoi gwybod iddynt fod eu plentyn wedi cael anaf i'w ben
- cadw cofnod ysgrifenedig o sesiynau goruchwylio unigol pob aelod o'r staff.
- adolygu'r polisi amddiffyn plant i gynnwys rhifau ffôn i gysylltu â thîm amddiffyn plant yr awdurdod lleol a'r gwahanol fathau o gam-drin, ac i'r staff ddarllen a deall y polisi;
- dylai'r staff gofnodi eu sesiynau goruchwylio i ddangos sut maent yn cynllunio ar gyfer chwarae a dysgu pob plentyn, a
- chadw cofnod manylach o safbwyntiau'r plant o fewn yr adroddiad ar ansawdd y gofal.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 02 Tachwedd 2018 rhwng 10.18 a 13.55.

- Gwnaethom archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau, a oedd yn cynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg, y polisi amddiffyn plant a'r polisi rheoli ymddygiad;
- gwnaethom edrych ar yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad;
- gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal a gânt;
- gwnaethom siarad â'r staff a'r plant, a
- gwnaethom roi adborth manwl ynghylch ein canfyddiadau i'r person â chyfrifoldeb dros y ffôn ar 08 Tachwedd 2018. Roedd hyn gyda chaniatâd yr unigolyn cyfrifol.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cyfrifol | Ann Thomas |
| Person â chyfrifoldeb | Catherine Ann Eastwood |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 23 |
| Ystod oedran y plant | 3 mis hyd at addysg amser llawn |
| Oriau agor | O ddydd Llun i ddydd Gwener; rhwng 08.00 a 18.00 |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 01 Medi 2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 02 Tachwedd 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy.Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |